Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

West Wales Regional Partnership Board

LLYTHYR NEWYDDION BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

RHIFYN CYFALAF

Ionawr 2026

Croeso cynnes iawn i rifyn Ionawr Llythyr Newyddion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.

Mae'r llythyr newyddion hwn yn canolbwyntio ar Swyddfa Rheoli Rhaglenni Cyfalaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (BPRhGC) a datblygiadau/diweddariadau cyfalaf dros y 6 mis diwethaf ers i'r rhifyn cyfalaf blaenorol gael ei ryddhau yn gynnar yn 2025.

I lywio trwy'r gwahanol adrannau, cliciwch y botwm Dewislen Llywio (yng nghornel dde isaf y sgrin):

Gweithio mewn partneriaeth gyda **Llywodraeth Cymru**

Working in partnership with **Welsh Government**

West Wales Health and Social Care AWARDS 2026

Rydych wedi'i gwahodd...

Rydym wrth ein bodd i wahodd eich sefydliad i fod yn rhan o ddigwyddiad nodedig i'n rhanbarth. Trwy gydweithrediad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (WWRPB) a rhwydwaith Heneiddio'n Dda Sir Gâr, rydym yn uno ein dau ddigwyddiad blynyddol blaenllaw yn un digwyddiad mawr ar ddydd Iau, 5 Mawrth 2026 ym Mhentre Awel. Trwy gyfuno'r Gwobrau Iechyd a Gofal Cymdeithasol â'r arddangosfa Heneiddio'n Dda, rydym yn dod â channoedd o weithwyr proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd ynghyd o dan yr un to.

Bydd Pentre Awel yn nodi maes arddangos penodol yn eu atriwm rhwng 10am a 3pm ar 5ed Mawrth 2026. Bydd yn cynnal dros 70 o stondinau gwybodaeth sy'n cynrychioli'r ystod eang o wasanaethau a sefydliadau ledled Gorllewin Cymru.

Bydd y gwobrau yn digwydd rhwng 1pm a 3pm:

Categoriadau 2026:

- Gwirfoddolwr y Flwyddyn
- Gwobr Effaith Ieuenctid
- Cyfraniad Eithriadol (i iechyd a gofal cymdeithasol)
- Gwobr Seren Ddisglair
- Gwobr Effaith Barhaus
- Gweithio mewn Partneriaeth
- Gwobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig
- Tîm y Flwyddyn
- Dewis y Dinasyddion a'r Trydydd Sector

Cynllun Byw â Chymorth Sir Gaerfyrddin

Mae byngalo sydd newydd ei adeiladu yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin wedi'i ddarparu drwy ymdrech gydweithredol rhwng **First Choice Housing Association Ltd** (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) a **Chyngor Sir Caerfyrddin**, gyda chymorth ariannol wedi'i sicrhau gan Dîm Cyfalaf **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru** (BPRhGC) drwy'r **Gronfa Tai â Gofal** yn Llywodraeth Cymru.

Roedd y fenter yn cynnwys adeiladu byngalo ar wahân 3 ystafell wely a rhandy yn Llanelli, i greu llety byw â chymorth o safon uchel i helpu unigolion ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r prosiect yn darparu llety a rennir addas i 2 oedolyn ag anableddau dysgu a rhandy ar gyfer tenant ychwanegol na all fyw mewn llety a rennir, a darperir llety i staff 24 awr y dydd yn y byngalo a rennir. Bydd y llety yn un â threfniadau byw â chymorth sydd wedi'i gynllunio i hyrwyddo annibyniaeth pobl sydd ag anghenion gofal a/neu anghenion cymorth.

Mae'r prosiect yn cyd-fynd ag un o flaenoriaethau allweddol BPRhGC, sef Integreiddio. Hefyd, mae'n cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru o weithredu Modelau Gofal Cenedlaethol. Mae'r modelau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ymatebol i anghenion unigol. Yn ogystal, mae Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad

BPRhGC yn tynnu sylw at angen sylweddol hirdymor am lety arbenigol i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys trefniadau byw â chymorth, ac mae'r cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at hynny.

Gardd Gymunedol Cegin y Bobl

Cafodd Cegin y Bobl, a leolir ym Mharc Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, gyllid gan fân gronfeydd Amcan 3 **Tai â Gofal Llywodraeth Cymru**, ar gyfer prosiect ar raddfa fach sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni nodau ac amcanion cyffredinol y **Gronfa Tai â Gofal.** Mae'r gronfa wedi cefnogi'r gwaith o greu gardd gymunedol awyr agored ar y safle, sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant a dod â phobl at ei gilydd, sydd hefyd yn un o'r sbardunau allweddol i **Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru.**

Mae'r ardd wedi'i datblygu fel gofod cynhwysol lle mae defnyddwyr y gwasanaeth wedi cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ataliol i gefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn allweddol o ran helpu i ddylunio'r prosiect, adeiladu gwelyau blodau, plannu ardaloedd tyfu tymhorol a datblygu'r ardd ar gyfer y gwanwyn.

Hyd yn hyn, mae 33 o wirfoddolwyr wedi cefnogi'r prosiect, gan roi dros 589 o oriau gwirfoddoli yn ystod yr 8 mis diwethaf. Mae'r cyfranogwyr wedi rhoi gwybod eu bod yn teimlo'n fwy egnïol, yn fwy cysylltiedig, ac yn llai ynysig. Mae'r prosiect bellach yn bwriadu ffurfio Cwmni Buddiannau Cymunedol i barhau â'r gwaith da ac yn gobeithio cyflwyno gweithgareddau sy'n cynnwys coginio ar gyllideb, sesiynau maeth, ymwybyddiaeth ofalgar, a dosbarthiadau llesiant cyffredinol. Bydd y sesiynau hyn ar gael i'r holl wasanaethau lleol, i wirfoddolwyr ac i ystod o sefydliadau'r trydydd sector.

Mae Parc Dewi Sant yn gartref i amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cymunedol sy'n darparu cymorth dementia, gweithgareddau i oedolion hŷn, cyfleoedd i ofalwyr di-dâl, ac ati. Gweledigaeth Cegin y Bobl yw dod â phobl at ei gilydd trwy fwyd, cryfhau cymunedau, a chefnogi unigolion o bob oed i ddysgu sgiliau newydd, paratoi prydau iach, a meithrin cysylltiadau ystyrlon.

Dolen Fideo Gardd Gymunedol Parc Dewi Sant

Atriwm, Sir Gaerfyrddin

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn trawsnewid hen siop fanwerthu fawr (Debenhams) yn nhref Caerfyrddin yn gyfleuster unigryw a fydd yn darparu ystod o wasanaethau cymunedol mewn un lleoliad canolog. **Atriwm**, sydd wedi cael ei ddewis fel enw ar gyfer y ganolfan iechyd a llesiant newydd sbon yng Nghaerfyrddin, sydd i fod i agor ei drysau yn gynnar yn 2027.

Bydd y prosiect adnewyddu mawr hwn yn gartref i gyfleusterau a reolir gan y Cyngor Sir gan gynnwys canolfan ffitrwydd Actif, parth adloniant sy'n cynnwys golff gwallgof, Hwb Gwasanaethau Cwsmeriaid a chanolfan wybodaeth i ymwelwyr, gan gael mynediad at nifer o gronfeydd cenedlaethol a rhai yn y DU, gan gynnwys y **Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)** gan **Lywodraeth Cymru**. Bydd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** hefyd yn lleoli nifer o'i wasanaethau yn yr Atriwm a bydd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynnig ei chlinigau therapi chwaraeon ac ymarfer corff o'r cyfleuster modern.

Bydd gwasanaethau **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** yn cynnwys timau nyrsio cymunedol a phlant, therapïau plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwasanaethau deintyddol, iechyd rhywiol, fflebotomi, podiatreg ac iechyd meddwl. Bydd yn creu amgylchedd modern, hygyrch ar gyfer gofal iechyd yng nghanol y gymuned leol.

Mae contractwyr lleol, gan gynnwys FP Hurley, Shufflebottom a Becker Sliding Partitions, wedi bod yn allweddol wrth roi'r cynllun ar waith, gyda chefnogaeth rhwydwaith o gadwyni cyflenwi, gan greu manteision economaidd gwirioneddol i'r gymuned leol

Cymeradwyaethau'r Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal yng Ngorllewin Cymru

Dros y 6 mis diwethaf, mae'r rhanbarth wedi llwyddo i sicrhau nifer o brosiectau a gymeradwywyd gan y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF). Mae dau bartner yng ngorllewin Cymru wedi sicrhau dros £750,000 o ffioedd ar gyfer 2025/26 o dan Flaenoriaeth 3 y grant hwn gan Lywodraeth Cymru, a hynny i gefnogi'r gwaith o gaffael a datblygu prosiectau Cartrefi Preswyl Plant yn y siroedd priodol. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu datblygu mewn ymateb uniongyrchol i'r agenda dileu elw a byddant yn helpu i gyfrannu at ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn y rhanbarth. Mae disgwyl i ragor o geisiadau ail gam adeiladu gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan ofyn am gymeradwyaeth gan weinidogion am gyllid pellach yn ystod 2026/27.

Yn ogystal â'r uchod, derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (yn amodol ar ganiatâd cynllunio) mewn perthynas â Chartref Nyrsio Preswyl Newydd i Oedolion o dan Flaenoriaeth 2 y grant. Ar ôl cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn yn llwyddiannus ym mis Hydref, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i helpu i gyflawni'r prosiect ac ailgydbwyso cyfran y lleoliadau cartrefi gofal i ffwrdd o'r sector sy'n gwneud elw.

Bob blwyddyn, mae o leiaf 40,000+ o bobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu hadrodd ar goll am y tro cyntaf.

Rydym yn falch o weithio mewn partneriaeth â'r elusen MedicAlert i gyflwyno protocol newydd ar gyfer pobl ar goll ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae Protocol Herbert (a enwyd ar ôl George Herbert, cyn-filwr rhyfel o laniadau Normandi, a oedd yn byw gyda Dementia) yn gynllun cenedlaethol a gynlluniwyd i gynorthwyo i ganfod unigolion agored i niwed, yn enwedig y rhai sy'n byw gyda dementia, a allai fynd ar goll.

Mae'r Protocol yn gofyn i ofalwyr, aelodau teulu a ffrindiau gwblhau, ymlaen llaw, ffurflen sy'n cofnodi manylion hanfodol fel y feddyginiaeth sydd ei hangen, rhifau ffôn symudol, lleoliadau y cafwyd hyd i'r unigolyn yn flaenorol, ffotograff ayb. Dylid cadw'r ffurflen mewn man diogel lle y gellir dod o hyd iddi'n hawdd a'i rhannu'n gyflym gyda'r asiantaethau perthnasol pe byddai adroddiad bod yr unigolyn y maent yn agos iddynt wedi mynd ar goll.

💬 Meddai DC Meinir Thomas, Cydlynydd Pobl ar Goll, "Bob tro y mae rhywun sy'n byw gyda Dementia'n mynd ar goll neu ddim yn dod adref pan ddisgwylir nhw, y mae'n achos gofid mawr i'r teulu, a gall felly fod yn anodd dwyn gwybodaeth i gof. Gall y ffurflen hon ddarparu gwybodaeth werthfawr i gynorthwyo gyda'r ymgyrch chwilio a chynyddu'r cyfleoedd i ddod o hyd i'r unigolyn yn gyflym ac yn ddiogel."

Os oes gennych chi anwylyd sy'n byw gyda Dementia ac yn poeni y gallent fynd ar goll, mae rhagor o wybodaeth (gan gynnwys y ffurflen) ar gael yma.

Mae pob un o'n gorsafoedd tan un hafan ddiogel

Digwyddiadau i Dod

Ymuno â'r bwrdd ymgysylltu â dinasyddion a'r trydydd sector

Ydych chi am gymryd mwy o ran yn eich ardal? Mae'r Bwrdd Dinasyddion a'r Trydydd Sector yn ffordd wych o wneud hynny. Gallwch helpu i greu a gwella gwasanaethau yng Ngorllewin

Cymru. Gallwch helpu i newid sut mae pethau'n cael eu gwneud a byddwn yn dangos i chi sut mae eich adborth yn gwella pethau

Rydyn ni'n croesawu aelodau newydd i'r bwrdd drwy gydol y flwyddyn.

Cynhelir ein cyfarfodydd Sir Gaerfyrddin yn y Ganolfan Byw'n Dda ym Mharc Dewi Sant ac maen nhw'n hybrid i bawb yng Ngorllewin Cymru. Bydd ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal **13 Ionawr 2026 o 11am i 1pm.**

Rydyn ni bellach wedi partneru â VC Gallery yn Noc Penfro i gynnal ein cyfarfodydd yn Sir Benfro! Bydd y rhain yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn unig a bydd ganddyn nhw fformat gwahanol i'n cyfarfodydd yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn ni'n cael cyfarfod strwythuredig awr gyda siaradwyr gwadd gofynnol ac yna drafodaethau anffurfiol. Mae gan VC Gallery lawer o ymwelwyr trwy gydol y dydd, ac rydyn ni'n awyddus i gynnwys cynifer o bobl â phosibl. Mae VC Gallery wedi dweud y bydd y fformat hwn yn gweithio orau iddyn nhw. Gall aelodau fynychu'r ddau gyfarfod os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael eu cynnal ar 7 Hydref am 1pm yn VC Gallery.

Anfonwch neges atom ni wwrpb@sirgar.gov.uk.

Beth sydd ymlaen ym mis Chwefror?

If you would like ot see a full list of events across West Wales that have been shared at the West Wales Communication and Engagement Board, please email wwrpb@carmarthenshire.gov.uk.

Screenshot of February events below:

Date yy.mm.dd	Location	Event	Time	Contact
26.02.03	University of Wales Trinity Saint Da	Open Evening: Info stalls to include support / finance / Welsh language with an opportunity to find out more about the courses on offer to include distance learning courses and on-campus courses.	4pm - 6pm	ann.evans@uwtsd.ac.uk
26.02.05	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.06	Address given on booking	Creative Communities	2pm - 4pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.06	Address given on booking	Creative Communities	11am - 1pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.11	Haverhub	Community Led Research: Workshop and Seminar Series	9:30am - 3:30pm	post@tfc.cymru
26.02.11	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.12	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.13	Address given on booking	Creative Communities	2pm - 4pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.13	Address given on booking	Creative Communities	11am - 1pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.16	ONLINE	"Neuroinclusion Matters!"	10am - 12pm	rachel.hazlewood@wlga.gov.uk
26.02.17	Memorial hall	Free Play Session	10am - 1pm	
26.02.18	Ysgol Caerfelin	Free Play Session	10am - 1pm	
26.02.18	Sports Hall, Wellbeing Centre, Lan	LAMPETER HEALTH AND WELLBEING SHOW 2026: The event will bring together a range of organisations and services to share information, advice and support with the local community. If you're able to attend, we'd welcome you to host an information or display stand on the day.	10:00am-2:00pm	robert.allen@wales.nhs.uk
26.02.19	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.20	ONLINE	"Neuroinclusion Matters!"	10am - 12pm	rachel.hazlewood@wlga.gov.uk
26.02.25	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.26	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.27	Address given on booking	Creative Communities	2pm - 4pm	rachel@acgc.co.uk
26.02.27	Address given on booking	Creative Communities	11am - 1pm	rachel@acgc.co.uk
26.03.05	Address given on booking	Creative Communities	1pm - 3pm	rachel@acgc.co.uk
26.03.05	Pentre Awel	Carmarthenshire Aging Well	10am - 1pm	
26.03.05	Pentre Awel	WWRPB West Wales Health and Social Care Awards	1pm - 3pm	wwrpb@carmarthenshire.gov.uk

Ydych chi'n ein dilyn ni?

Rydym wedi dechrau tudalen LinkedIn yn ddiweddar. Cofiwch ein dilyn ni a sôn amdanom yn eich postiadau pan fyddwch yn cymryd rhan yn y gwaith a wnawn. Byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny!

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
West Wales Regional Partnership Board

on Facebook @PGGCWWCP

on Instagram @PGGCWWCP

on X @PGGCWWCP

on LinkedIn @ West Wales Regional Partnership Board

on our website @ https://www.wwrpb.org.uk/

Cysylltu â ni!

Os oes gennych gynnwys yr hoffech ei rannu ar draws ein sianeli yn y cyfryngau, neu unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol, rhowch wybod i ni ar wwrpb@sirgar.gov.uk Y tîm yn edrych ymlaen at glywed gennych chi a datblygu'r llythyr newyddion yn adnodd defnyddiol a llawn gwybodaeth. Bydd eich adborth yn ein helpu i gyflawni hynny, ac yn sicrhau bod y llythyr newyddion yn cael ei ddosbarthu ac yn cael ei ddarllen!